

Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Cylchlythyr

Cylchlythyr Haf 2025 - Rhifyn 20

Yn y rhifyn hwn

Cyflwyniad.....	1
Ffowm Dihalogi Endosgop..... 2025	2
Diwrnod Blasu Amgylchedd..... Adeiledig Prifysgol De Cymru	4
Cynhadledd Ranbarhol.....	5
Cyflawniadau ac Anrhydeddau.....	8
Newidiadau Staff.....	11
Y Gornel Hanes.....	12



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Shared Services
Partnership
Specialist Estates Services

Rhagymadrodd

Mae haf arall wedi hedfan heibio. Gobeithio eich bod chi i gyd wedi gallu cymryd seibiant i ymlacio.

Ar y cyfan, mae gweithgarwch wedi arafu ychydig, gyda phwysau i gyflawni ar draws cwrpas llawn ystadau a gwasanaethau eiddo. Yn braf, mae cydweithwyr ledled GIG Cymru yn mynd i'r gwahanol fforymau lle rydym i gyd yn ceisio dal i fyny a rhannu arferion gorau.

Mae ein cylchlythyr yn crynhoi rhai digwyddiadau allweddol yn gryno:

- Ym mis Mehefin, gwelwyd y nifer uchaf erioed yn bresennol yn y fforwm Dihalogi Endosgop a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt gyda chydweithwyr y GIG a'r sector preifat yn dod at ei gilydd i gyflwyno digwyddiad gwych.
- Cynhaliwyd Diwrnod Blasu Amgylchedd Adeiledig Prifysgol De Cymru ym mis Mehefin hefyd. Ei nod oedd hyrwyddo'r cwrs Gradd Eiddo Tiriog i fyfyrwyr posibl. Rydym yn parhau i fod yn awyddus i gefnogi mentrau i sicrhau bod gennym sylfaen sgiliau dda ar gael i ddiwallu anghenion GIG Cymru yn y dyfodol.
- Daeth nifer dda i gynhadledd ar y cyd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol/ Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau a gynhaliwyd ym mis Mai. Roedd yn cynnwys cyflwyniadau ar amrywiaeth eang o faterion a heriau yr ydym yn eu hwynebu heddiw. Roedd ymddangosiad Syr Gareth Edwards yn y Cinio Gala a Gwobrau yn uchafbwynt gwirioneddol i lawer ohonom.
- Roedd Sioe Frenhinol Cymru, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, yn gyfle i ni gefnogi cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n ceisio hyrwyddo'r GIG fel llwybr i aelodau'r lluoedd wrth iddynt integreiddio i weithle sifil.

Newyddion arall:

- Mae'n wych gallu cofnodi ein gwaith er mwyn mynd allan i hysbysu cydweithwyr yn PCGC a sefydliadau eraill y GIG am yr hyn a wnawn. Hefyd, y gwaith parhaus i hyrwyddo gyrfa arolygu i bobl ifanc yn ein hysgolion.
- Mae amrywiaeth o wobrau wedi'u hennill mewn sawl maes gwasanaeth ac mewn rhai achosion, gweithio ar draws adrannau PCGC. Mae hefyd yn dda ymdrin â chynnydd parhaus staff wrth ennill cymwysterau addysgol a phroffesiynol.
- Llwyddom i roi gwobrau gwasanaeth hir i 8 o'n staff eleni, sy'n adlewyrchiad o'u hymroddiad a'u gwaith caled yn y GIG.
- Gallwn nawr ymfalchïo bod gennym bencampwr Tynnu Rhaff – dw i ddim yn meddwl y byddwch chi'n dyfalu pwy nes i chi ddarllen yr erthygl!

Yn olaf, peidiwch ag anghofio darllen yr erthygl yn y Gornel Hanes. Mae wir hanes i Ysbyty Brenhinol Caerdydd!

Mwynhewch y darllen!

Stuart

Stuart Douglas
Cyfarwyddwr

stuart.douglas@wales.nhs.uk





Fforwm Dihalogi Endosgop 2025: Digwyddiad sy'n Torri Recordiau ar gyfer Arloesi a Chydweithio

Cynhaliwyd Fforwm Dihalogi Endosgop 2025 ar 12 Mehefin yng Nghanolfan Hafod a Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt a nododd ei flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma. Gyda'r nifer uchaf o gynrychiolwyr a noddwyr corfforaethol hyd yma, mae'r fforwm wedi tyfu i fod yn ddigwyddiad allweddol i weithwyr proffesiynol ledled GIG Cymru a thu hwnt.

Diwrnod o Fewnwelediad: Y Da, y Drwg, a'r Hyll

Archwiliodd thema eleni, "Y Da, y Drwg a'r Hyll," yr heriau, y risgiau a'r arloesiadau cyfredol mewn dihalogi endosgopau. Fe wasanaethodd fel plattform nid yn unig i dynnu sylw at bryderon parhaus ond hefyd i ddathlu enghreifftiau o arferion gorau a datblygiadau addawol. Ymunodd cynrychiolwyr o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Cymru a GIG Lloegr a Gogledd Iwerddon, a meithrin dysgu a chydweithio trawsffiniol gwerthfawr.

Sylwadau Agoriadol a'r 'Drwg'

Mark Gapper, Pennaeth Peirianeg y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol agorodd y fforwm, gydag Aidan Parkes (Peiriannydd Dihalogi) yn cymryd yr awenau i gadeirio'r sesiwn agoriadol a oedd yn canolbwyntio ar y materion hollbwysig "Drwg" sy'n parhau i effeithio ar y maes. Bu'r cyflwynwyr Oleg Tuchs (ASP), Ellie Wishart (Nanosonics), a Mett Smart (20/30 Labs) yn ymchwilio i her barhaus bioffilm mewn endosgopau hyblyg.

Archwiliodd eu sgysiau ffurfio bioffilm, risgiau haint cysylltiedig, a thechnolegau glanhau sy'n dod i'r amlwg sydd â'r nod o liniaru'r risgiau hyn. Daeth y sesiwn i ben gyda sylwebaeth arbenigol gan Mark Furmage (AE(D) Annibynnol), a wnaeth gynnig persbectif peirianeg ar y pryder cynyddol hwn.

Mynd i'r Afael â'r 'Hyll'

Roedd y sesiwn nesaf yn mynd i'r afael â phroblemau parhaus, datrysadwy a ystyrir yn "Hyll" ac sy'n aml yn cael eu rhwystro gan ddiffyg adnoddau, gwybodaeth neu ymrwymiad.

Tynnodd Jenn Stevenson (Anderson Caledonia) sylw at yr heriau diogelwch wrth ddefnyddio asid perasetig a'r angen hollbwysig am brotocolau a hyfforddiant staff sy'n seiliedig ar risg. Trafododd Vanessa Blount (Partneriaid ar gyfer Endosgopi) risgiau haint sy'n gysylltiedig â photeli dŵr ac ategolion clinigol. Tynnodd sylw hefyd at gynaliadwyedd fel ystyriaeth ysgogiadol ar gyfer datrysiadau yn y dyfodol. Daeth John Prendergast (Gwasanaethau Ystadau Arbenigol) â'r bore i ben drwy fynd i'r afael â bylchau mewn llywodraethu ynghylch tasgau peirianeg sy'n gysylltiedig ag offer dihalogi. Pwysleisiodd yr angen am systemau cadarn, cefnogaeth beirianyddol gymwys, a dull rhagweithiol o liniaru risg sefydliadol.



Endoscope Decontamination Forum 2025: A Record - Breaking Event for Innovation and Collaboration

Rhwydweithio ac Arloesi

Roedd y cinio rhwydweithio wedi caniatáu i'r bobl a oedd yn bresennol ymgysylltu â phartneriaid corfforaethol ac archwilio arloesiadau arloesol a fydd yn llywio dyfodol dihalogi endosgopau. Dangosodd llawer o arddangoswyr dechnolegau sydd â'r potensial i ddod yn safonau diwydiant yn y degawd nesaf.

Dathlu'r 'Da'

Amlygodd y prynhawn ragoriaeth a chynnydd mewn ymarfer. Cyflwynodd Kevin Owens o Ysbyty Beaumont, Dulyn, drawsnewidiad yr ysbyty o gyfleusterau dihalogi lleiaf posibl i uned o'r radd flaenaf a bu'n arddangos sterileiddio safon aur ar gyfer sgopiau ENT. Daeth y diwrnod i ben gyda chyflwyniad ar y cyd gan John Prendergast a thîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn manylu ar y daith o archwiliad JAG i ddatblygu cyfleuster dihalogi canolog newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Arweiniodd Nicola Merry, Craig Gane, a Lorraine Morgan y cynrychiolwyr drwy'r heriau a'r cerrig milltir o ran cyflawni'r hyn a fydd yn un o amgylcheddau dihalogi gorau GIG Cymru, a drefnwyd i'w gwblhau ddechrau 2026.

Edrych tua'r Dyfodol

Daeth John Prendergast â'r fforwm i ben yn ffurfiol. Diolchodd i'r holl gynrychiolwyr, cyflwynwyr, noddwyr ac arddangoswyr am eu cyfraniadau. Mae'r Gwasanaethau Ystadau Arbenigol hefyd yn estyn diolch arbennig i'r Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau, ein partneriaid digwyddiadau, am eu cefnogaeth gyda chydlynu a chyllido digwyddiadau.

Mae myfyrio ar bron i ddau ddegawd o esblygiad o ward wedi'i hailbwrpasu yn Ysbyty Bronllys i ddigwyddiad nodedig eleni, Fforwm 2025, yn dyst i gynnydd, cydweithrediad ac ymrwymiad a rennir y sector i ragoriaeth.

Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ym mis Mehefin 2026 wrth i ni barhau â'r sgwrs hanfodol hon a hyrwyddo arloesedd mewn dihalogi endosgopau.



John Prendergast

Uwch Beiriannydd
Dadheintio

john.prendergast@wales.nhs.uk



Emma Mazey

Swyddog Gwybodaeth

emma.mazey@wales.nhs.uk





Diwrnod Blasu Amgylchedd Adeiledig Prifysgol De Cymru

Ar 25 Mehefin, 2025, aeth cannoedd o fyfyrwyr o bob cwr o'r rhanbarth i ddiwrnod blasu ym Mhrifysgol De Cymru. Trefnodd Sian Cornwell-Shaw, ein Huwch Syrfëwr Eiddo, y diwrnod, fel rhan o'i gwaith fel Llysgennad Ysbrydoli Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Bwriad y diwrnod oedd hyrwyddo'r cwrs Eiddo Tirol newydd ym Mhrifysgol De Cymru. Lansiwyd y cwrs yn 2023 ar ôl bwlch o 20 mlynedd heb unrhyw gyrsiau'n canolbwyntio ar eiddo tirol yn ne Cymru.

Fel rhan o'r diwrnod, cymerodd myfyrwyr ran mewn amrywiol weithgareddau megis cystadleuaeth fesur lle gallai myfyrwyr ennill taleb Amazon gwerth £100 drwy geisio mesur y ddarlithfa heb ddefnyddio offer na'u ffonau. Fe wnaethon nhw 'weithgaredd adeiladu tref' a oedd yn annog myfyrwyr i ystyried y maint a'r gyllideb wrth adeiladu tref. Roedd gan bob math o dŷ, e.e. - tŷ lled-ddatgysylltiedig neu dŷ ar wahân bris penodol. Roedd rhaid i'r myfyrwyr geisio cyfrifo faint allent eu hychwanegu at y gyllideb. Roedd yn rhaid iddyn ddarparu cynlluniau hefyd a meddwl am gynaliadwyedd. Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys arddangosiad arolwg adeiladau, dysgu am brisio ac arddangosiad hedfan drôn.

Cafodd myfyrwyr gyfle hefyd i wylio fideo hedfan drwodd a thaith, trwy garedigrwydd cwmni adeiladu BAM, o adeilad newydd Calon ar y campws a fydd yn gartref i Gyfrifiadura, Technoleg a Pheirianneg.

Emma Mazey

Swyddog Gwybodaeth

emma.mazey@wales.nhs.uk



Roedd ein myfyrwyr Sadie Enoch, Rhwydwaith75, sy'n astudio ar y cwrs Eiddo Tirol a Steffan David sy'n astudio ar y cwrs Mesur Meintiau, ynghyd â myfyrwyr eraill ar eu cyrsiau priodol, hefyd yn bresennol i roi cyfrif uniongyrchol o'u profiad o wneud y cyrsiau a chyfleoedd Rhwydwaith75.

Gan fod y diwrnod blasu mor llwyddiannus i fyfyrwyr o'r hyn y gallant ei ddisgwyl ar y cwrs, mae'n debygol y daw yn ddigwyddiad mwy rheolaidd yn ein calendrau.

I ddarllen mwy am y cwrs Eiddo Tirol, gweler Rhifyn 16 a thudalen we'rcwrs .



CYNHADLEDD RANBARTHOL Gwasanaethau Ystadau Arbenigol/ Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau CYMRU 2025 - Crynodeb

Cynhaliodd Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau (IHEEM), ynghyd â'i Gangen Cymru a PCGC - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES), ei Gynhadledd Ranbarthol Cymru, Arddangosfa, a Chinio Gala a Gwobrau ar 7-8 Mai 2025 yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol (ICC), Casnewydd.

Daeth y Gynhadledd â gweithwyr proffesiynol ystadau, peirianwyr, arweinwyr y GIG ac arloeswyr ynghyd i lunio dyfodol seilwaith gofal iechyd. Gyda rhaglen ddeuddydd lawn, canolbwyntiodd y digwyddiad ar gyflawni Net Sero, ysgogi arloesedd mewn dylunio ystadau, a chryfhau cydweithio rhwng peirianeg glinigol. Yn dilyn agoriad rhithwir gan Judith Paget, Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru, traddododd Stuart Douglas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, araith allweddol yn ymdrin â dyfodol ystâd gofal iechyd Cymru. Amlinellodd blaenoriaethau allweddol gan gynnwys optimeiddio adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio, cyflawni Sero Net, a gwella offer rheoli ar draws ystâd GIG Cymru, sy'n ymestyn dros ddwy filiwn metr sgwâr.

Gan bwysleisio'r angen i ddefnyddio systemau Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur (CAFM) modern yn gyson, tynnodd sylw at gyfyngiadau prosesau â llaw a manteision goruchwyliaeth ystadau sy'n seiliedig ar ddata. Gan dynnu cymariaethau â Chod Ystadau GIG drafft Lloegr (HBN 00-08), cymeradwyodd Stuart ei safonau, megis lluniadau CAD gyda Chymorth Cyfrifiadur cyfredol, cofrestrau risg, ac arolygon chwe agwedd. Canmolodd Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru sydd eisoes yn treialu offer fel delweddu 3D gyda Matterport. Tanlinellodd ei sgwrs yr angen brys am reoli ystadau'n ddoethach, yn safonol, ac wedi'u galluogi'n ddigidol er mwyn diogelu seilwaith GIG Cymru ar gyfer y dyfodol.



CYNHADLEDD RANBARTHOL Gwasanaethau Ystadau Arbenigol/ Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau CYMRU 2025 - Crynodeb

Roedd y thema gyffredinol "Ystadau Arloesol ar gyfer Yfory" yn tynnu sylw at ymroddiad y rhaglen i bynciau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol:

- Cyflawni Sero Net
- Integreiddio ystadau mewn dylunio ac adeiladu
- Datrysiaidau ynni sy'n dod i'r amlwg fel tanwydd hydrogen
- Strategaethau caffael ar gyfer cynaliadwyedd
- Newidiadau fflyd cerbydau trydan
- Arloesiadau mewn deallusrwydd artifisial a seilwaith digidol (e.e., BIM, ChatGPT, CoPilot ac ati)

Archwiliodd cyflwyniadau allweddol ar y diwrnod cyntaf yr heriau o gyflawni Sero Net, gyda mewnwelediadau gan Simon Russell, Craig Morgan o Wasanaethau Ystadau Arbenigol, Tony Chatfield o PCGC, a Des Keighan (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), ac yna trafodaeth banel dan gadeiryddiaeth Pete Sellars.

Canolbwyntiodd sesiynau'r prynhawn ar arloesedd digidol a chynaliadwyedd, a oedd yn cynnwys sgysiau gan Clive Nattrass (NHPower) a Matthew Hubbard (WSP). Traddodwyd anerchiad cloi'r diwrnod cyntaf gan John Prendergast, (Cadeirydd Cangen Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau Cymru/SES).

Roedd diwrnod dau yn cynnwys sesiynau ar reoli heintiau, uwchraddio seilwaith, a thechnolegau gweithredol, gyda chyfraniadau gan Tracey Gauci (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Jason Williams (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)), ac Ashley Wood (Gwasanaethau Ystadau Arbenigol). Yna cafwyd sesiwn y prynhawn yng nghwmni Steve Bishops (Spirax Sarco), Caroline Finlay (MTS Health) a Carl Magnus von Behr (innex.ai). Daeth y gynhadledd i ben gyda thrafodaeth banel a sylwadau cloi gan Stuart Douglas.

Gyda'r nos ar 7 Mai cafwyd cinio yn Celtic Manor gyda'r siaradwr gwadd, yr arwr rygbi Cymru, Syr Gareth Edwards CBE.

Cadarnhaodd Cynhadledd Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau Cymru 2025 bwysigrwydd cynaliadwyedd, gwydnwch technegol ac arloesedd digidol wrth drawsnewid ystadau gofal iechyd. Roedd yn fforwm hollbwysig ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, datrys problemau, a gosod gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol.

Diolch i gydweithwyr Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau a GIG Cymru am gynnal Cynhadledd ranbarthol lwyddiannus yn 2025.



Cyflawniadau ac Anrhydeddau: Tymor o Gydnabyddiaeth i'r Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES)

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

ESTATES AND FACILITIES TEAM OF THE YEAR

Honoured for their expert support across NHS Wales, ensuring technical excellence, safety, and adherence to best practice in healthcare systems.



Sponsored by Approved Air



The Engineering Team within NWSSP-SES




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

CHAMPION OF CHAMPION

Celebrated for his progression from apprentice to senior leadership, and for shaping a positive, patient-focused departmental culture.



Sponsored by Eastwood Park



Jason Williams
Assistant Head of Operational Estates
Cwm Taf Morgannwg UHB




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

SUSTAINABILITY ACHIEVEMENT

For innovative imaging upgrades that significantly improved sustainability, efficiency, and cost-effectiveness in healthcare.



Sponsored by Tarkett



Operational life extending imaging upgrades and the beneficial effects on sustainability by Joanne Sewell - Assistant Diagnostic Imaging Advisor for NWSSP-SES




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

APPRENTICE OF THE YEAR

Recognised for his outstanding enthusiasm, technical knowledge, and commitment to professional development in healthcare engineering.



Sponsored by Tilbury Douglas



Samuel Burnett
Trainee Estates Officer
Morriston Hospital




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

CAPITAL PROJECT OF THE YEAR

Honoured for its patient-led design, community engagement, and environmentally responsible approach to transforming breast care.



Sponsored by Mott MacDonald



Unified Breast Unit Project (YYF)




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

EXHIBITOR STAND

This award was presented to the exhibitor whose stand best incorporated the conference theme 'Pioneering Estates for Tomorrow'.



Sponsored by IHEEM Wales Branch

Air Sentry




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025

GALA AWARDS WINNER

WALES REGIONAL AWARDS

GRAHAM STANTON AWARD: COMMITMENT TO SERVICE

Honoured for over four decades of dedicated service and exceptional commitment to hospital estates and patient safety.



Sponsored by IHEEM and NWSSP-SES

Andrew Harton
Mechanical Craftsperson, Estates Department, Royal Glamorgan Hospital




Partneriaeth Cydwasaethau Shared Services Partnership

Wales Regional Conference, Exhibition and Gala Dinner
7-8th May 2025



Cyflawniadau ac Anrhydeddau: Tymor o Gydnabyddiaeth i'r Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES)

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae staff y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi bod yn hynod weithgar, ac wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ac wedi gwneud cyfraniadau sylweddol nad ydynt wedi ymddangos yn y cylchlythyr eto.

Cynrychiolodd y Peirianwyr Cynorthwyol **Aran Chaplin** a **Rebecca Mason**, ynghyd â myfyrwraig Rhwydwaith75 **Sadie Enoch**, Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn y Diwrnod Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol a gynhaliwyd yn IP5. Fe wnaethon nhw rannu mewnwelediadau i'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ar draws y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, a fydd yn helpu eraill i ddeall gwerth ac effaith ein gwasanaethau.

Siaradodd **Dylan Morris**, yr Uwch Beiriannydd Safonau Perfformiad yn Fforwm Haf HARP (Rhaglen Heintiau, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd) yn CQ2 ar 25 Mehefin. Rhoddodd gyflwyniad addysgiadol ar awyru mewn amgylcheddau gofal iechyd.

Yn ddiweddar, aeth **Sian Cornwell-Shaw**, Uwch Syrfëwr Eiddo, sy'n gweithio'n rheolaidd mewn partneriaeth ag ysgolion ledled de Cymru, i Ddigwyddiad Llwybr Gyrfaoedd Blwyddyn 10 yn Ysgol Idris Davies yng Nghaerffili, yng nghwmni Sadie Enoch.



Mae'r Gwasanaethau Ystadau Arbenigol hefyd wedi gweld llwyddiant mawr mewn nifer o seremonïau gwobrwyo diweddar:

Dyfarwyd Gwobr Goffa Robert Knight i **Sadie Enoch**, ein fyfyrwraig Rhwydwaith75, am y Myfyriwr Eiddo Tirol Gorau 2025. Derbyniodd y wobwr gan deulu'r Knight yn ystod seremoni Graddio Prifysgol De Cymru ar 16 Gorffennaf.

Yng Nghynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2025, enillodd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol Wobr Rhwydwaith/Cymuned Cynaliadwyedd yn falch. Mae'r wobwr hon yn adlewyrchu ymrwymiad ein tîm i ofal iechyd cynaliadwy yng Nghymru. Llongyfarchiadau i **Craig Morgan**, Uwch Ymgynghorydd Rheoli Amgylcheddol a Chyfleusterau, a dderbyniodd y wobwr ar ein rhan.

Yn ystod Gala Gwobrau Cynhadledd Ranbarthol Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau, dathlodd y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol nifer o wobrau:

- Tîm Ystadau a Chyfleusterau'r Flwyddyn: **Peirianwyr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC**
- Gwobr Cynaliadwyedd **Joanne Sewell**, Datblygu Ystadau Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC
- Pencampwr y Pencampwyr Ystadau (Canmoliaeth Uchel): **Ashley Wood**, Datblygu Ystadau Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC



Yng Ngwobrau Staff PCGC, llongyfarchwyd:


Sian Cornwell-Shaw ac **Anthony Pitcher** am ennill yn y categori Arwr Cudd

Sadie-Marie Enoch, a dderbyniodd Ganmoliaeth Uchel yn y categori Gwrando a Dysgu

Llwyddiant Datblygiad Proffesiynol

Rydym yn falch o gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ein staff ac yn nodi bod llongyfarchiadau i'r canlynol:

- Mae **Ruchika Tripathi**, Swyddog Technegol Cynorthwyol, wedi cyflawni statws Proffesiynol BIM yn ddiweddar, gan roi sgiliau ac arbenigedd gwerthfawr iddi i gefnogi cylch bywyd llawn y prosiect BIM.
- Sicrhaodd **Craig Morgan** statws Siartredig gyda'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gweithleoedd a Chyfleusterau hefyd.
- Mae **Rohan Megahey** newydd dderbyn hysbysiad ei fod wedi pasio ei Ddiploma lefel 5 mewn Dylunio



Cydnabod Gwasanaeth Hir

Llongyfarchiadau o galon i sawl aelod o dîm y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol sydd wedi derbyn Gwobrau Gwasanaeth Hir am eu hymrwymiad hirhoedlog i GIG Cymru:

Peter Barrow – ers 1982

John Prendergast – ers 1986

Chris East – ers 1991

Anthony Pitcher – ers 1993

Jamie Evans – ers 1993

Kate Webb – ers 1996

Andrew Ward – ers 2000

Clive Ball – ers 2000

Diolch am eich ymroddiad a'ch blynyddoedd o wasanaeth!

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Aeth Stuart Hanger, Swyddog Diogelwch Tân a chyn-filwr yr RAF, i Sioe Frenhinol Cymru ar 24 Gorffennaf. Yno, bu'n cynrychioli Cyfamod y Lluoedd Arfog yn PCGC, ar ôl cael ei wahodd ochr yn ochr â Phil Jones o Gaffael (Cyn-filwr o Fyddin Prydain ac aelod o'r grŵp). Roedd Stuart yn westai i Reolaeth Perthynas Amddiffyn - Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD), gan fynd i'r Briffio i Gyflogwyr ac ymweliad dan arweiniad VIP o amgylch Pentref Milwrol y Tri Gwasanaeth yn y sioe. Dywedodd Stuart, "Roedd yn ddiwrnod gwych yn cysylltu â chyn-gydweithwyr a staff ymgysylltu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n hyrwyddo cefnogaeth i gyn-filwyr a theuluoedd cyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu'r lluoedd arfog sy'n gweithio o fewn sefydliadau sifil." Pwysleisiodd y diwrnod hefyd y gwerth y gall cyn-filwyr â'r set gywir o sgiliau ei gyfrannu at sefydliad."



Pencampwriaethau Tynnu Rhaff

Enillodd Rebecca Mason, Peiriannydd Cynorthwyol, ym Mhencampwriaethau Tynnu Rhaff Cymru ym mis Gorffennaf gyda'i thîm Tynnu Rhaff Shirenewton. Aeth Rebecca i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt hefyd a chystadlodd gyda Thîm Ffermwyr Ifanc Sir Forgannwg.

Newidiadau i Staff

Fe wnaethon ni ffarwelio â **Steve Dinnick**, syrfëwr eiddo, sydd wedi ymddeol. Gobeithiwn y caiff Steve ymddeoliad hapus a ffrwythlon iawn.

Cafodd Steve ei ddisodli gan **Nicole Kruger**, bydd Nicole yn gweithio yn yr adran Eiddo fel Syrfëwr Eiddo. Mae Nicole yn wyneb cyfarwydd gan ei bod hi wedi gweithio yn y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol o'r blaen. Croeso nôl!

Mae **Ruchika Turipathi**, Swyddog Technegol Cynorthwyol, yn gadael y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol i ddychwelyd i'w chartref yn India. Dymunwn y gorau i Ruchika gyda'i hymdrechion yn y dyfodol.



Ar hyn o bryd rydym yn hysbysebu sawl swydd yn GYA felly rydym yn disgwyl mwy o benodiadau cyffroud yn y dyfodol agos.



Swyddi Gwag Presennol -
Partneriaeth Cydwasanaethau
GIG Cymru

Cornel Hanes

Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Mae Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn un o'r ysbytai hynaf yng Nghymru, gyda hanes yn dyddio'n ôl i 1837. Wedi'i sefydlu'n wreiddiol fel Fferyllfa Caerdydd, fe'i sefydlwyd i ddarparu gofal meddygol i'r tlodion. Ym 1861, daeth y Fferyllfa yn Ysbyty Caerdydd ac fe symudodd i safle newydd ar Heol Casnewydd.

Ym 1923, rhoddwyd y teitl "Brenhinol" i'r ysbyty gan y Brenin Siôr V, a daeth yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Drwy gydol yr 20fed ganrif, chwaraeodd yr Ysbyty rôl bwysig wrth wasanaethu nid yn unig Caerdydd ond hefyd ardal ehangach de Cymru. Roedd yn arbennig o arwyddocaol wrth drin anafiadau diwydiannol yn gysylltiedig â chloddio glo a llongau, a oedd yn ganolog i economi'r rhanbarth.

Mae'r adeiladau Fictoraidd gwreiddiol ar Heol Casnewydd bellach wedi'u rhestru oherwydd eu pwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol. Dyluniwyd prif adeilad yr ysbyty gan Edwin Seward o James, Seward & Thomas, a enillodd gystadleuaeth bensaernïol ar gyfer y prosiect. Yn rhyfeddol, goroesodd y strwythur fomio amser rhyfel, hyd yn oed wrth i adeiladau cyfagos gael eu dinistrio.

Yn dilyn sefydlu'r GIG ym 1948, daeth Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn rhan o'r system gofal iechyd genedlaethol ac yn ddiweddarach datblygodd yn ysbyty addysgu sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Caerdydd.

Yn y 1990au, dechreuodd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghaerdydd symud i gyfleusterau mwy a mwy modern fel Ysbyty Athroafol Cymru. Erbyn diwedd y degawd, roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau meddygol aciwt wedi'u trosglwyddo, ac roedd yr Ysbyty wedi rhoi'r gorau i weithredu fel ysbyty cyffredinol i raddau helaeth.

Yn 2016, ailagorwyd yr adeilad fel canolfan iechyd cymunedol a chynnig gofal cleifion allanol, gwasanaethau iechyd meddwl, deintyddiaeth gymunedol, a gwasanaethau hanfodol eraill. Fel rhan o'r adfywiad hwn, trawsnewidiwyd capel hanesyddol yr ysbyty yn 'Capel i Bawb', cyfleuster cymunedol sy'n gartref i lyfrgell, ystafelloedd cyfarfod, ystafell TG, a chaffi. Cwblhawyd yr adnewyddiad hwn rhwng 2020 a 2022.



Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Emma Mazey

Swyddog Gwybodaeth

emma.mazey@wales.nhs.uk



Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

CYLCHLYTHYR

HAF 2025



ses.info@wales.nhs.uk



NHS Wales Shared Services Partnership
Specialist Estates Services
www.nwssp.wales.nhs.uk



Specialist Estates Services, 4th Floor,
Companies House,
Crown Way,
Cardiff,
CF14 3UB



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Shared Services
Partnership
Specialist Estates Services